(parhad o dud 5)

amgylch y tafarnau i ofalu nad oedd dim cwsmeriaid ar ôl yno. Y drwg oedd bod hyn yn gyrru'r llymeitwyr a'r cadwyr puteindai i'r ogofâu ar lan yr afon. Crynwyr Cymreig a Seisnig oedd y rhan fwyaf o'r trigolion, ond ar y strydoedd gwelid hefyd ymfudwyr o Ffinland, Holland, Sweden, yr Almaen, ychydig o gaethweision Negroaidd ac ambell i Indiad. Roedd y gweision a'r morynion o dan lafur ymrwymedig am 4 blynedd, yn cael eu rheoli yn union fel caethweision ac yn eiddo personol i'w meistri.

Er hynny, roedd cyfraith a threfn da yn Philadelphia, hyd yn oed os oedd bywyd yn llwydaidd i rai a theatrau a dawnsfeydd yn waharddedig. Yfed gwin yn y *Blue Anchor* oedd eu hunig fywyd cymdeithasol. Er bod busnes yn cynyddu roedd arian yn brin. Am fod ŷd yn brin roedd y mewnfudwyr yn amharod i dalu trethi mewnforio ac allforio, a thra oedd o'n dal yno bu Penn yn fodlon iddyn nhw beidio. Ond unwaith i'r Perchennog fynd yn ôl i Loegr, fe aed ati i newid pethau. Mawr oedd cwyno'r trefedigaethwyr Cymreig am yr hyn a ystyrid yn anghyfiawnder. A dyna pam yr anfonwyd David Lloyd drosodd.



*William Penn*

Pan ymddangosodd yn Ystafell y Cyngor yn Awst 1686, dair wythnos ar ôl iddo gyrraedd, dim ond nifer bychan iawn o'r 18 aelod oedd yn bresennol. Darllenodd Thomas Lloyd y llythyr cyflwyniad, a thystiodd David ei deyrngarwch i'r brenin ac i'r perchennog. Un o'i dasgau cyntaf oedd dweud wrth y trefedigaethwyr fod yn rhaid iddyn nhw dalu treuliau Penn. Eglurodd fel y bu'r Perchennog yn talu'r treuliau o'i boced ei hun, a'i fod nawr mewn dyled ddybryd, ac wedi gorfod benthyca arian stiward ei ystâd yn Iwerddon, sef dyn o'r enw Philip Ford.

Mae'n amlwg fod David Lloyd, oedd yn fuan iawn wedi'i benodi'n Glerc Llysoedd Philadelphia, yn ofalus iawn i beidio â digio gwrthwynebwyr Penn. Hwyrach ei fod erbyn hyn wedi dechrau gweld fod achos y trefedigaethwyr yn un cyfiawn. Yn sicr roedd o'n amddiffyn awdurdod y Perchennog tra'n siarad yn y Llys. Ond fe newidiodd pethau ar ddiwedd y flwyddyn pan ddaeth archiad gan Penn i'r Cyngor ddiddymu pob deddf a basiwyd ar ôl Awst '84. Penderfynodd David Lloyd a Thomas Lloyd lwyr anwybyddu'r cyfarwyddyd hwn. Erbyn hyn roedd diffyg consyrn David am dynged Siarter Penn yn profi ei fod yntau erbyn hyn yn teimlo ei hun yn diriogaethwr gyda'i fuddiannau ei hun. Yn 1687 roedd o wedi prynu llain o dir yn nhreflan Chester i'r de-orllewin o Philadelphia.

**Manon Eames**


# SIOP LYFRAU'R HEN BOST

45 Stryd Fawr, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd LL41 3AA
Ffôn: (01766) 831802
e-bost: Dafydd@hen-bost-books.freeserve.co.uk

1. Roberts, E.O.: *Hanes Eglwys Gymreig Jackson, Ohio*, 1908 — 22.00
2. Griffiths, William: *Byr a Phert*, 1928 — 4.50
3. *Y Geiniogwerth*, Cyfrolau 1, 2 a 3 yn un, lledr llawn, 1847-1849 — 7.50
4. Price, F.S.: *History of Caio*, Carmarthenshire, 1904 — 15.00
5. Poole, J.: *Gleanings of the Histories of Holywell, Flint, St. Asaph and Rhuddlan*, 1831, llofnod Thomas Charles Edwards ar y dudalen weili — 38.00
6. *Y Beibl Cysssegr-Lan*, 1821, adargraffiad o Feibl 1588 — 32.00
7. Davies, J.H.: *A Bibliolgraphy of Welsh Ballads*, 1911 — 25.00
8. Griffith: *The Welsh Question and Druidism*, 3ydd arg. — 20.00
9. Palmer, A.N.: *History of the Town of Wrexham*, 1893 — 38.00
10. Thomas, Ben Bowen: *Drych y Baledwr*, 1958 — 4.50
11. Morrice, J.C.: *A Manual of Welsh Literature*, 1909 — 4.50
12. Davies, J.: *Rhestr o Lyfrau Argraffedig...* gan John Ross, 1916 — 5.50
13. Ap Hefin: *Dringo'r Bannau*, 1934 — 4.00
14. Halliday, G.E.: *Llandaff Church Plate*, 1901 — 28.50
15. Jackson, K.: *Early Welsh Gnomic Poems*, 1961 — 7.50
16. Evans, Charles (Siarl Trannon): *Odlau'r Dyffryn*, 1895 — 5.00
17. Williams, A.H.: *An Introduction to the History of Wales*, Vols 1 & 2 — 10.00
18. Edgar, Iwan Rhys (gol.): *Llysieulyfr Salesbury*, 1997 — 14.50
19. Edwards, J. & Edwards J.: *Y Meddyg Anifeiliaid*, ail arg. — 9.00
20. Chelidon: *Derivations from the Welsh*, 1841 — 20.00
21. Anhysb: *Hanes Argyhoeddiad... Richard Davies* [Cloddiau Cochion] 1840 — 22.00
22. Cadfan, N.H. (gol.): *Adlais y Gamwy*, 1924 — 9.00
23. Gruffydd, W.J.: *Rhiannon*, 1953 — 7.00
24. Roberts, Gomer M.: *Gwaith Pantycelyn*, detholiad, 1960 — 4.50
25. Morgan, Derec Llwyd: *Williams Pantycelyn* (cyfres Llên y Llenor), 1983 — 4.00
26. Williams, Huw: *They Lived in Flintshire*, Cyf 1, 1960 — 4.00
27. Jones, John Gwilym: *Crefft y Llenor*, 1977 — 4.50
28. Lewis, Saunders: *Ceiriog*, 1929 — 5.50
29. Thomas, David: *Silyn*, 1956 — 3.50
30. Williams, D.J.: *Hen Wynebau*, 1934 — 4.00
31. Williams, J.G.: *Pigau'r Sêr*. clawr caled. d.d. — 3.50
32. Jones, Bobi: *I'r Arch*. 1959 — 4.50
33. Evans, D. Tecwyn: *Atgofion Cynnar*. 1950 — 4.00
34. Williams, Owain: *Cysgod Tryweryn*. ail arg. 1995 — 3.00
35. Richards, Thomas: *Y Ci Defaid ac Englynion Eraill*. 1964 — 4.00
36. Gwilym Cadlan: *Crwth Dyffryn Cadlan*, 1924 — 4.00
37. Hughes, W.F.: *Cerddi William Oerddwr*. 1954 — 5.00
38. Roberts, R. Alun: *Hafodydd Brithion*. 1947 — 3.50

**Pamffledi a Mân Lyfrynnau**

39. Gwilym Rhug: *Gwenllian, Etifeddes Dolbadarn*. d.d. 22tud — 4.00
40. Levi Thomas: *Y Gin Shop*. darluniau George Cruikshank. d.d. 14tud — 5.50
41. *Llyfr Ffynnon Elian*. d.d. heb gloriau. 108tud — 5.00
42. *Deiseb, Paham?* (pamffledyn Deiseb yr Iaith), 1939 — 5.00
43. Baled: Cân Newydd sef *Cwyn Lewis Rees a'i Chwaer Ann*, 1854? — 6.00
44. Baled: Cân Newydd sef *dull y Gyfraith yn y Work Houses Newyddion* — 5.00
45. Mills, Caradoc: *Rhyfeddodau Radium*, 1907. heb gloriau. 75tud — 8.50
46. Jones, J.R.: *A Raid i'r Iaith Ein Gwahanu?* 1967 — 4.50
47. Lewis, Saunders: *An Introduction to Contemporary Welsh Literature*, 1926. 16tud — 4.50

Llyfrau newydd, ail law a hynafiaethol